# GWYBODAETH I YMGEISWYR: RHEOLWR GWEITHDY

Ebrill 2025

Annwyl Ymgeisydd

Dyma becyn cais ar gyfer swydd Rheolwr Gweithdy yn Theatr y Sherman. Diolch yn fawr am eich diddordeb yn y swydd.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â Theatr y Sherman, mae niferoedd ymwelwyr yn ffynnu ac mae ein cynyrchiadau Gwnaed yn y Sherman yn boblogaidd iawn gydag ystod eang o gynulleidfaoedd. Mae Rheolwr y Gweithdy wrth galon ein hymdrechion i sicrhau bod ein gwaith o'r ansawdd uchaf o ran gwerthoedd cynhyrchu a darparu gwasanaethau gweithdy.

Mae Rheolwr Gweithdy Theatr y Sherman yn gweithio'n agos â'r broses greadigol, sy'n brofiad buddiol a diddorol iawn. Mae'r swydd hon yn addas ar gyfer pobl y mae hyn yn eu cyffroi ac rydym yn awyddus iawn i weld sut y gall yr unigolyn llwyddiannus helpu ein sefydliad i dyfu.

Yn Theatr y Sherman, rydyn ni'n dychmygu byd sy'n cael ei wneud yn decach, yn fwy tosturiol, yn fwy unedig gan rym theatr. Rydyn ni'n benderfynol bob dydd i gyflawni'r weledigaeth yma. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy greu a churadu cyd-brofiadau theatr byw sy'n ysbrydoli pobl o bob cefndir ledled y de-ddwyrain i greu byd gwell, yn eu ffordd eu hunain. Rydyn ni'n credu bod mynediad at greadigrwydd a hunanfynegiant yn hawl, ac rydyn ni bob amser yn ymdrechu i sicrhau bod gan bawb gyfle i gael eu cyfoethogi gan gelfyddyd theatr.

Drwy ganolbwyntio ar ddatblygu a chynhyrchu gwaith newydd, ac ar feithrin artistiaid sy'n byw neu sy'n dod o Gymru, rydyn ni'n bwerdy i theatr Cymru. Rydyn ni'n adrodd straeon o Gymru sy'n berthnasol i'r byd drwy ein cynyrchiadau Gwnaed yn y Sherman, sydd wedi'u creu o dan ein to ni yma yng nghanol Caerdydd. Rydyn ni'n lle i bawb, sy'n creu cyfleoedd i ddinasyddion y de-ddwyrain ymwneud â'r theatr drwy waith ymgysylltu ysbrydoledig sy'n llawn gweledigaeth.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydyn ni wedi mynd o nerth i nerth gyda chydnabyddiaeth drwy wobrau cenedlaethol, canmoliaeth gan y beirniaid i'n gwaith a drwy gynyddu maint ein cynulleidfaoedd.

Mae ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd a'n cymunedau yn dal i fod wrth wraidd popeth rydyn ni'n ei wneud, ac mae'r swydd hon yn chwarae rhan hanfodol o ran sicrhau bod y sefydliad yn rhedeg mor esmwyth â phosib i alluogi hynny.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
disability confident COMMITTED

Rydyn ni am i Theatr y Sherman fod yn hygyrch i bawb, felly mae'n hollbwysig i ni bod ein tîm yn y theatr yn adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu ar draws y ddinas a'r tu hwnt. Rydyn ni'n aelod o'r cynllun Hyderus o ran Anabledd ac yn croesawu'n arbennig ymgeiswyr o gymunedau ethnig amrywiol a chymunedau Byddar ac anabl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein tîm ar hyn o bryd.

I wneud cais am y swydd, lawrlwythwch y ffurflen gais, y daflen glawr a'r ffurflen cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o'n gwefan: www.shermantheatre.co.uk/jobs/ a'u hanfon i recruitment@shermantheatre.co.uk. Nodwch y swydd rydych chi'n gwneud cais amdani ar eich ffurflen gais. Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bobl sy'n dymuno ymgymryd ag un swydd neu'r ddwy swydd. Yn unol â'n polisi amgylcheddol, dim ond yn electronig rydyn ni'n ymdrin â cheisiadau. Y dyddiad cau ar gyfer y ddwy swydd yw **hanner dydd, dydd Mawrth 06 Mai 2025**. Byddwn yn cadarnhau ein bod wedi cael eich cais dros e-bost.

Ein gobaith yw cynnal cyfweliadau **ddydd Iau 15 Mai 2025**. Rhowch wybod i ni, ar daflen flaen y cais, a fyddech ar gael i gael cyfweliad ar y dyddiad hwnnw fel y byddwn yn gwybod mewn da bryd os bydd angen i ni wneud trefniadau eraill ar gyfer unrhyw ymgeiswyr fydd ar y rhestr fer.

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gymorth arnoch cyn i chi wneud cais, cysylltwch â ni drwy recruitment@shermantheatre.co.uk

Diolch i chi am eich amser gyda'r cais. Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at gael clywed gennych, ac at ystyried sut bydd eich sgiliau, eich profiadau a'ch angerdd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i'n gwaith.

Pob lwc gyda'ch cais

Yn gywir

Julia Barry
Prif Weithredwr
Theatr y Sherman

SHERMAN
THEATR • THEATRE

## RHEOLWR GWEITHDY: TROSOLWG O'R SWYDD

Mae Theatr y Sherman yn dymuno penodi Rheolwr Gweithdy i arwain ar waith adeiladu a gorffen setiau ar gyfer ei holl gynyrchiadau. Mae'r swydd yn cwmpasu ystod eang o ddyletswyddau, a bydd angen i'r unigolyn a benodir fod yn frwdfrydig ac yn awyddus, gyda sgiliau cyfathrebu ardderchog.

## Rheolwr Gweithdy: Manylion Cytundebol

| | |
|---|---|
| **Cyflog:** | £30,851 y flwyddyn |
| **Tymor:** | Cynigir y swydd fel swydd llawn amser, parhaol, yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf 6 mis yn llwyddiannus. |
| **Oriau:** | 43 awr yr wythnos gan gynnwys nosweithiau a phenwythnosau. (Mae hyn yn cynnwys taliad i gwmpasu goramser). |
| **Gwyliau:** | 22 diwrnod y flwyddyn, ynghyd â'r wyth dydd gŵyl cyhoeddus/gŵyl y banc cydnabyddedig, gyda diwrnodau'n cronni wrth i hyd eich gwasanaeth gynyddu, hyd at 27 diwrnod yn ogystal â gwyliau banc/cyhoeddus. |
| **Cyfnod Rhybydd:** | 1 mis gydag wythnosau ychwanegol yn cronni ar sail blynyddoedd o wasanaeth (Y cyfnod rhybudd yn ystod y cyfnod prawf yw 1 wythnos) |
| **Pensiwn:** | Mae Theatr y Sherman yn gweithredu cynllun pensiwn y gweithle cymwys. |
| **Yr hawl i weithio:** | Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu dogfennau o dan Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 |
| **Geirdaon:** | Mae cynigion swydd yn amodol ar dderbyn geirdaon sy'n foddhaol i Theatr y Sherman. |
| **Dyddiad dechrau:** | Mae'r swydd ar gael yn syth. |

### Buddion Anghytundebol

Rydym yn annog yr holl staff i weld cymaint o sioeau â phosibl ac i fod yn rhan o bob cam o'r broses gynhyrchu ar gyfer cynyrchiadau Theatr y Sherman. Gwahoddir pob aelod o staff i fynychu Noson y Wasg ar gyfer cynyrchiadau Theatr y Sherman, ynghyd â thocynnau am ddim i'r rhan fwyaf o sioeau.

Rydym hefyd yn cynnig gostyngiad staff yn y Caffi Bar i bob aelod o staff.

# DISGRIFIAD SWYDD: RHEOLWR GWEITHDY

**TEITL Y SWYDD:** Rheolwr Gweithdy

**YN ADRODD I:** Pennaeth Cynhyrchu a Chynllunio

**YN GYFRIFOL AM:** Seiri Llawrydd, Adeiladwyr Golygfeydd Llawrydd, Artistiaid Golygfeydd Llawrydd, Contractwyr

**CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL:** Cyfarwyddwr Artistig, Timau Creadigol Llawrydd, Rheolwr Llwyfan y Cwmni, Rheolwr Technegol, Uwch Dechnegydd, Technegwyr, Contractwyr, Adran Gynhyrchu Lawrydd

## PRIF DDIBEN Y SWYDD:

Mae Theatr y Sherman yn chwilio am Reolwr Gweithdy newydd i arwain ar waith adeiladu a gorffen setiau ar gyfer ei holl gynyrchiadau. Mae'r swydd yn cwmpasu ystod eang o ddyletswyddau, a bydd angen i'r unigolyn a benodir fod yn frwdfrydig ac yn awyddus, gyda sgiliau cyfathrebu ardderchog.

Y Rheolwr Gweithdy sy'n gyfrifol am reoli a darparu gwasanaethau gweithdy Theatr y Sherman yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd deiliad y swydd yn Rheolwr yn Adran Gynhyrchu'r cwmni, ac felly bydd disgwyl iddynt wneud cyfraniad cadarnhaol i ddatblygiad yr adran a'r Theatr. Mae Theatr y Sherman yn anelu tuag at yr ansawdd uchaf yn ei gwerthoedd cynhyrchu ac wrth ddarparu gwasanaethau gweithdy, a bydd gan ddeiliad y swydd rôl allweddol yn cyflawni targedau ansawdd ac yn datblygu a chynnal safonau.

## CWMPAS:

Y Rheolwr Gweithdy sydd â'r prif gyfrifoldeb dros y Gweithdy, a byddant yn gweithio'n agos gyda'r Pennaeth Cynhyrchu a Chynllunio a Rheolwyr eraill yr Adran Gynhyrchu i sicrhau y caiff cynyrchiadau ar y llwyfan eu darparu'n llyfn.

## CYFRIFOLDEBAU A DYLETSWYDDAU:

1 **Cynllunio:**

- Rheoli a darparu holl wasanaethau gweithdy Theatr y Sherman
- Rheoli a chymell yr holl staff sy'n adrodd i'r swydd hon
- Cynrychioli'r Adran Gynhyrchu yn fewnol ac yn allanol
- Hyrwyddo a chymryd rhan mewn ymagwedd effro a chadarnhaol tuag at Iechyd a Diogelwch wrth gynnal holl wasanaethau gweithdy Theatr y Sherman, yn unol â pholisi ac arfer Iechyd a Diogelwch Theatr y Sherman
- Rheoli defnydd, cynnal a chadw, atgyweirio ac adnewyddu offer a pheiriannau'r gweithdy
- Gweithio fel arweinydd effeithiol ar dîm llawrydd y gweithdy yn yr Adran Gynhyrchu, gan gyfrannu at ddatblygu'r adran a'r Theatr yn gyffredinol

2 **Rheoli Gweithdy:**

- Rheoli ardaloedd a gwasanaethau gweithdy Theatr y Sherman i'r safonau uchaf posib, gan sicrhau y cynhelir trothwyon rheoli ansawdd cytunedig o fewn yr adnoddau sydd ar gael
- Mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cynhyrchu a Chynllunio, llunio, monitro a diweddaru cynllun gwaith blynyddol tîm llawrydd y gweithdy
- Cynllunio a rheoli'r gwaith o ddarparu'r holl wasanaethau gweithdy sy'n ofynnol ar gyfer gosod cynyrchiadau, digwyddiadau a gweithgareddau o fewn amserlen Theatr y Sherman, gan gynnwys adeiladu setiau, gwaith celf olygfaol, creu propiau mawr, addurniadau a gwasanaethau cysylltiedig eraill; ac ar gyfer holl weithgarwch allgymorth ac Ymgysylltu Creadigol Theatr y Sherman yn fewnol ac yn allanol i Theatr y Sherman
- Sicrhau bod holl aelodau'r tîm gweithdy llawrydd yn rhan lawn o'r broses gynhyrchu, a bod y staff yn glynu at amserlenni a chyllidebau cytunedig wrth ddarparu eu gwasanaethau
- Goruchwylio'r systemau archebu a rheoli stoc yn y Gweithdy
- Monitro a rheoli gwariant cynhyrchu a goramser o fewn cyllidebau cytunedig, gan ymgynghori â'r Pennaeth Cynhyrchu a Chynllunio lle bo angen
- Cymryd rôl arweiniol yn yr Adran Gynhyrchu o ran rheoli a threfnu sut y storir setiau a ddefnyddiwyd, elfennau golygfaol, propiau mawr ac elfennau adeiladu eraill yng ngweithdy a storfeydd Theatr y Sherman, a hyrwyddo y caiff elfennau o'r fath yng ngwasanaethau gweithdy Theatr y Sherman eu hailgylchu lle bo'n bosib ac yn ddymunol gwneud hynny.
- Cynllunio, amserlennu, costio (gyda'r Rheolwr Technegol), cydlynu a rheoli darpariaeth gwasanaethau gweithdy Theatr y Sherman i sefydliadau trydydd parti o dan gytundebau, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cynhyrchu a Chynllunio
- Goruchwylio a chwarae rhan weithgar mewn unrhyw waith adeiladu, llwytho setiau, gosod setiau, a datgymalu setiau ar y llwyfan ac yn y briglofft, yn unol ag amserlen cynyrchiadau Theatr y Sherman. Bydd hyn yn cynnwys gweithio ar uchder.
- Gweithio gyda holl gynllunwyr preswyl ac ymweld cynyrchiadau Theatr y Sherman
- Gweithio ochr yn ochr â'r Rheolwr Technegol wrth adeiladu setiau ac elfennau o olygfeydd, gan fodloni'r holl ofynion gweithredol, gan gynnwys storio, perfformio, newid golygfeydd a throsi.
- Gweithio ochr yn ochr â'r Rheolwr Technegol i reoli defnydd a gweithrediad System Frig y Prif Dŷ.
- Mynd ati i hyrwyddo llesiant, datblygiad a hyfforddiant staff
- Cymryd rôl arweiniol yn y gwaith o recriwtio, rheoli a datblygu staff llarwydd yn nhîm y Gweithdy, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau gweithdy arbenigol
- Hwyluso cyfathrebu effeithiol o fewn tîm y Gweithdy, a rhwng tîm y Gweithdy a thimau eraill ar draws y Sherman a thimau creadigol mewn cynyrchiadau
- Sicrhau cyswllt rheolaidd rhwng tîm y Gweithdy ac aelodau o dimau creadigol yn ystod y broses gynhyrchu

3 **Amgylcheddol**

- Cefnogi Theatr y Sherman i fodloni ei nodau a'i huchelgeisiau sefydliadol o ran ei heffaith amgylcheddol.
- Cefnogi'r gwaith o weithredu Llyfr Gwyrss y Theatr gyda'r Adran Gynhyrchu.

4 **Iechyd a Diogelwch:**

- Sicrhau y caiff yr holl ofynion Iechyd a Diogelwch eu bodloni ar bob adeg wrth weithio
- Mynychu hyfforddiant yn ôl yr angen a chynnal ymwybyddiaeth o reoliadau Iechyd a Diogelwch sy'n benodol i'r gofodau a'r offer a ddefnyddir, a holl gyngor y diwydiant mewn perthynas â chanllawiau gweithio'n ddiogel.
- Sicrhau y gwneir yr holl beryglon posib yn ddiogel cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib, ac y caiff yr holl offer trydanol arbenigol ei ddiffodd yn gywir ar ddiwedd pob diwrnod gwaith
- Cefnogi'r Pennaeth Cynhyrchu a Chynllunio drwy fynd i gyfarfodydd rheolaidd a chyfrannu at y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch
- Cefnogi cyfranogiad ac ymgysylltiad gweithredol yr Adran Gynhyrchu gyda Phwyllgor Iechyd a Diogelwch y sefydliad
- Sicrhau bod y timau technegol, gan gynnwys gwirfoddolwyr neu staff llawrydd, achlysurol, ac o gwmnïau cynhyrchu sy'n ymweld, yn cael eu briffio'n llawn am yr holl weithdrefnau ac amserlenni Iechyd a Diogelwch yn ôl yr angen
- Sicrhau bod llogwyr allanol yn cael eu briffio'n llawn ar ddefnydd diogel o ofodau
- Llunio asesiadau risg a datganiadau dull yn ôl yr angen
- Mynychu hyfforddiant yn ôl yr angen i ddiweddaru gwybodaeth a sgiliau, ac er mwyn gallu cydymffurfio â gofynion statudol perthnasol i safon uchel.

5 **Cyffredinol:**

- Cyfrannu at broses gynllunio'r theatr, gan godi unrhyw bwyntiau pwysau ac angen am adnoddau ychwanegol ymhell ymlaen llaw
- Mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd rheolaidd y cwmni a chyfarfodydd adolygu tymhorol
- Dirprwyo ar gyfer y Pennaeth Cynhyrchu a Chynllunio pan fo hynny'n briodol

**Mae'n ddyletswydd cadw at y datganiadau polisi fel y'u nodir yn y Llawlyfr i Staff.**

## MANYLEB YR UNIGOLYN: RHEOLWR GWEITHDY

## HANFODOL

**Profiad**

Prawf o brofiad o'r canlynol:

- Llunio a dehongli lluniadau i raddfa
- Llunio asesiadau risg
- Adrannau Adeiladu Theatr, Llwyfannu, Rigio, Awtomeiddio, a Golygfeydd
- Rheoli cyllidebau
- Cynnal a chadw offer
- Rheoli prosiectau mewn amgylchedd theatr

**Gwybodaeth a Sgiliau**

- Profiad ymarferol sylweddol o weithio un ai mewn adran adeiladu neu adran gelf olygfaol mewn amgylchedd theatr.
- Dealltwriaeth ymarferol ardderchog o arfer cyfredol ym maes adeiladu a chelf olygfaol.
- Sgiliau arweinyddiaeth ardderchog
- Sgiliau cyfathrebu ardderchog, yn ysgrifenedig ac ar lafar
- Y gallu i ddefnyddio Microsoft Office: Outlook, Word, Excel, Vectorworks, AutoCAD neu becynnau CAD tebyg yn rheolaidd.
- Prawf o'r gallu i gynllunio, amserlennu a rheoli allbwn Tîm Gweithdy.
- Prawf o'r gallu i gynllunio llwythi gwaith a rheoli'n effeithiol sawl tasg a blaenoriaeth
- Prawf o'r gallu i reoli a chymell staff
- Dealltwriaeth o ystod eang o ddulliau a systemau adeiladu newydd a thraddodiadol
- Dealltwriaeth a phrofiad o arferion a materion Iechyd a Diogelwch cyfredol yn niwydiant celfyddydau perfformio Prydain
- Dealltwriaeth a phrofiad o reoli a chynnal peiriannau a gweithdai
- Profiad o weithio'n uniongyrchol gyda staff creadigol
- Y gallu i weithio'n dda mewn tîm ac yn annibynnol.
- Prawf o ddealltwriaeth o ddeddfwriaeth a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch, gan gynnwys COSHH, LOLER, PAT a chanllawiau'r diwydiant ac arferion gweithio diogel, gan gynnwys canllawiau ABTT a SOLT

## DYMUNOL IAWN

- Y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg.

## DYMUNOL

- Profiad o weithio mewn amgylchedd theatr sy'n cynhyrchu gwaith.
- Trwydded yrru lawn, a'r gallu i yrru fan Transit LWB.
- Cymhwyster / tystysgrif cymorth cyntaf
- Cymhwyster / tystysgrif codi a chario
- Defnyddio ysgol